**BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT**

**ADRODDIAD I:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR SAFONAU**

**PWNC:** **PWYLLGOR SAFONAU - DYDD MAWRTH, 14 GORFFENNAF 2020 DYDD MAWRTH, 14 GORFFENNAF 2020**

**ADRODDIAD GAN:** **DEMOCRATIC SUPPORT OFFICER**

---

PRESENNOL: R. ALEXANDER (CADEIRYDD)

Cynghorwyr: J. Thomas
H. Roberts
S. Williams
K. Hayden
M. Moore

A: Data Protection & Governance Officer
Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol

| EITEM | PWNC | GWAITH |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod ac adroddwyd yr ymddiheuriadau dilynol am absenoldeb:<br><br>Cynghorydd G. Thomas a Mr. J. Evans. | |
| No. 3 | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefeau. | |
| **No. 4** | <u>**COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**</u><br><br>Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2020.<br><br><u>**Materion yn Codi**</u><br><br><u>*Codi ymwybyddiaeth fod goddefebau ar gael*</u><br><br>Dywedodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithol a Chorfforaethol, yn dilyn trafodaethau blaenorol am argaeledd goddefebau, y bwriedir cryfhau'r broses ar gyfer goddefebau drwy'r hyfforddiant arferol ar God Ymddygiad Aelodau. Fodd bynnag, cafodd y rhaglen hyfforddiant ei gohirio fel rhan o'r ymateb i COVID-19 ond rhoddodd y Swyddog sicrwydd y caiff ei gynnwys yn y rhaglen hyfforddiant pan mae busnes y Cyngor yn ôl i'r arferol.<br><br><u>*Ystyriaeth i enghreifftiau o Lyfr Gwaith yr Ombwdsmon*</u><br><br>Dywedodd y Cadeirydd y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf y byddai hyn yn dod yn eitem safonol ar yr agenda a gofynnodd i'r Swyddog os oedd unrhyw ddiweddariad i'w adrodd.<br><br>Atebodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol na fedrai roi diweddariad gan fod yr ymateb i COVID-19 wedi effeithio ar hyn hefyd ac y caiff ei godi yn y cyfarfod nesaf. Cafodd llawer o waith yr Ombwdsmon hefyd ei oedi felly mae'n annhebyg y byddai llawer i adrodd arno, fodd bynnag yn y cyfamser gall Aelodau edrych ar wefan yr Ombwdsmon.<br><br>Dywedodd yr Aelod fod yr adnoddau ar wefan yr Ombwdsmon yn ddefnyddiol iawn wrth roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar faterion sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Safonau.<br><br><u>*Gohrio gweddarlledu cyfarfodydd*</u><br><br>Mewn ymateb i gwestiwn dywedodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithol a Chorfforaethol y cafodd llawer o'r materion yn ymwneud â gweddarlledu eu disodli gan ymateb y Cyngor i COVID-19. Mae'r Cyngor bellach wedi symud i sefyllfa lle mae cyfarfodydd democrataidd wedi cael eu hailgyflwyno'n raddol yn | |

defnyddo technoleg Teams sy'n ei gwneud yn bosibl i recordio cyfarfodydd a'u rhoi yn y parth cyhoeddus, felly mae cyfarfodydd mewn gwirionedd yn cael eu gweddarlledu er mewn ffurf wahanol. Dywedodd y Swyddog y byddai'r Cyngor, fel llawer o sefydliadau eraill, yn edrych ar gymryd rhai o fanteision hyn i'r tymor hwy i gynllunio ar gyfer atal lledaeniad COVID-19, ond edrych hefyd ar y buddion yn nhermau effeithiolrwydd. Caiff hyn ei ystyried gan Dîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol y Cyngor wrth symd ymlaen.

*Gofynion Hyfforddiant*

Gofynnodd y Cadeirydd os yw'n dal yn fwriad i gynnal sesiwn hyfforddiant ym mis Medi o gofio am ganllawiau presennol y Llywodraeth ac os y gellid cyflwyno hyn gyda thechnoleg Teams.

Dywedodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol y byddai'r sesiwn hyfforddiant arferol yn cynnwys hyfforddiant i Aelodau newydd a hyfforddiant gloywi ar gyfer Aelodau presennol, fodd bynnag bydai'n rhaid diweddaru hyn yn awr i ffurf rithiol a gofynnodd am awgrymiadau gan Aelodau am sut yr hoffent dderbyn hyfforddiant.

Dywedodd Aelod fod hyfforddiant yn hanfodol i bob Aelod ac y byddai'n croesawu unrhyw fath o hyfforddiant. Soniodd fod hyfforddiant ar y cyd gydag awdurdodau lleol eraill yn fanteisiol, ond ei bod yn bwysig derbyn hyfforddiant gloywi neu fel arall.

Cadarnhaodd y Swyddog y caiff opsiynau eu hystyried a'u cylchredeg i Aelodau ar gyfer trafodaeth bellach.

*Mesur Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)*

Gofynnodd y Cadeirydd os cafodd y crynodeb o brif ddarpariaethau'r Bil eu cylchredeg i Aelodau.

Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol nad yw'r wybodaeth wedi ei chylchredeg hyd yma. Hyd yma cafodd y Bil ei gylchredeg i awdurdodau lleol ar gyfer ymgynghoriad. Un elfen sy'n berthnasol i Bwyllgorau Safonoau oedd cynnig y byddai gan Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol gyfrifoldeb ac y byddent â rhan mewn materion ymddygiad o fewn eu grwpiau. Dealltwriaeth y Swyddog yw y caiff crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ei gylchredeg bryd hynny. Fodd bynnag, yn dilyn ymchwiliad dywedodd y Swyddog nad oedd yr

| | | |
|---|---|---|
| | ymateb i'r ymgynghoriad ar gyfer ei gyhoeddi ymhellach ar y pryd, a disgwylir gwybod pryd y gellir ei rannu.<br><br>Dywedodd y Swyddog y cafodd rhai o elfennau allweddol y Bil eu pasio ond y cafodd y gweddill eu gohirio oherwydd amgylchiadau presennol. Dywedodd y byddai'n cylchredeg Rhan 4 y Bil, perthnasol ar gyfer dibenion Pwyllgorau Safonau, ac yn holi os yw'n awr yn briodol i rannu ymateb Cymdeitas Llywodraeth Leol Cymru i'r ymgynghoriad.<br><br>CYTUNWYD, yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 5** | **PENODI SWYDDI GWAG AELODAU ANNIBYNNOL**<br><br>Dywedodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol y cafodd dau ymgeisydd eu cyfweld ar gyfer y ddwy swydd wag ar y Pwyllgor Safonau. Argymhellwyd penodi un o'r ymgeiswyr, a chaiff yr argymhelliad hwn ei gyflwyno i'w gymeradwyo yn y Cyngor ar 23 Gorffennaf 2020.<br><br>Byddai'r swydd wag arall yn cael ei ailhysbysebu.<br><br>Mewn ymateb i gwestiynau a godwyd, dywedodd y Swyddog Diogelu Data a Llywodraethiant y derbyniwyd tua 9 ymholiad ond mai dim ond 3 cais ffurfiol a gafodd eu llenwi. Cafodd y swyddi eu hysbysebu yn y wasg leol a hefyd ar gyfryngau cymdeithasol a sianeli recriwtio arferol Datblygu Sefydliadol. | |
| **No. 6** | **CYNLLUN GWAITH/GOFYNION HYFFORDDIANT Y DYFODOL**<br><br>Dywedodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol y byddai'n e-bostio opsiynau am gyflwyno hyfforddiant, i gynnwys Aelodau newydd. Er fod yr opsiynau yn gyfynedig yn yr amgylchiadau presennol, gellid trefnu sesiynau rhithiol.<br><br>Tanlinellodd y Cadeirydd bwysigrwydd hyfforddiant, yn neilltuol Aelodau newydd i sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu swyddi newydd, fodd bynnag roedd yn deall yr anhawster yn yr amgylchiadau presennol. | |
| **No. 7** | **UNRHYW FATER ARALL/DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**<br><br>Dywedodd y Cadeirydd mai hwn oedd y cyfarfod olaf i Mr. Evans a Mr. Price ac er nad oeddent yn bresennol, diolchodd iddynt am eu | |

| | | |
|---|---|---|
| | gwasanaethau sylweddol i'r Pwyllgor Safonau yn y 10 mynedd diwethaf.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, dywedodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol nad yw'r Ombwdsman wedi ymchwilio unrhyw gwynion yn erbyn Cynghorwyr Blaenau Gwent.<br><br>Dyddiad y cyfarfod nesaf: i'w gadarnhau.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fynychu a dywedodd fod y cyfarfod ar gau. | |